Mae ffrydiau ‘ngorfoledd yn tarddu

Caneuon Ffydd: Rhif 747

Mae ffrydiau ’ngorfoledd yn tarddu
o ddisglair orseddfainc y ne’,
ac yno’r esgynnodd fy Iesu
ac yno yr eiriol efe:
y gwaed a fodlonodd gyfiawnder,
daenellwyd ar orsedd ein Duw,
sydd yno yn beraidd yn erfyn
i ni, y troseddwyr, gael byw.

Cawn esgyn o’r dyrys anialwch
i’r beraidd baradwys i fyw,
ein henaid lluddedig gaiff orffwys
yn dawel ar fynwes ein Duw:
dihangfa dragwyddol geir yno
ar bechod, cystuddiau a phoen,
a gwledda i oesoedd diderfyn
ar gariad anhraethol yr Oen.

O fryniau Caersalem ceir gweled
holl daith yr anialwch i gyd,
pryd hyn y daw troeon yr yrfa
yn felys i lanw ein bryd;
cawn edrych ar stormydd ac ofnau
ac angau dychrynllyd a’r bedd,
a ninnau’n ddihangol o’u cyrraedd
yn nofio mewn cariad a hedd.

DAVID CHARLES, 1762–1834

MYFYRDOD

Cymharol ychydig o emynau a luniodd David Charles (rhyw 24). Ceir blas o’u mawredd a rhyfeddod y profiad personol sydd ynddyn nhw yn y saith emyn o’i waith a welir yn *Caneuon Ffydd* bellach. Gwelwn thema’r anialwch yma eto fel yn gymaint o waith ein prif emynwyr, a’r dyhead am gael codi allan ohono ac uwchlaw iddo:

Cawn esgyn o'r dyrys anialwch
i'r beraidd baradwys i fyw.

A oes un emyn yn nes at galon y Cymro na'r emyn sydd o'n blaenau ni? Dyna oedd cwestiwn Ifor L. Evans yn ei gasgliad bychan o waith prif emynwyr Cymru, *Blodau Hyfryd,* yn 1945. Ond yn benodol, y pennill olaf o'r emyn, sef 'O fryniau Caersalem ceir gweled'. 'Bu mwy o ganu ar ei bennill olaf nag ar unrhyw bennill arall, ond odid, yn angladdau Cymru', meddai John Thickens wedyn wrth gyfeirio at yr emyn yn ei *Emynau a'u Hawduriaid*.

Efallai'n wir bod rhyw dynfa ynom ni yng Nghymru i edrych yn ôl a hiraethu am a fu ac mai dyna sy'n peri ein bod yn hoff o gyfeirio at yr olygfa o fryniau Caersalem a welodd David Charles. Ond edrych ymlaen mae David Charles mewn gwirionedd at gael cyrraedd y lle hwnnw ble 'Mae ffrydiau 'ngorfoledd yn tarddu'. Gwaith a hyfrydwch y credadun wedi cyrraedd y baradwys honno fydd 'gwledda i oesoedd diderfyn ar gariad anhraethol yr Oen'.

Er bod David Charles yn sôn mewn emyn arall (114) y 'bydd synnu wrth gofio'r rhain tu draw i'r llen', ychydig mewn gwirionedd fydd ein diddordeb yn 'holl daith yr anialwch i gyd', ac ni fydd fawr o gyfle i edrych yn ôl bryd hynny a sylwi ar fanion y daith – dim ond rhyfeddu ein bod wedi cyrraedd a chael bod gyda'r Iesu 'sydd yno yn beraidd yn erfyn' drosom ar hyn o bryd.

'Yn y ddinas bydd gorsedd Duw a'r Oen, a'i weision yn ei wasanaethu', a ddatguddir i Ioan (Dat. 22:3). Bydd popeth arall yn pylu yno wrth inni ddod yn rhan o oleuni yr Un sy'n goleuo'r cyfan (adn.5). Bydd popeth yn newydd yno a'r 'pethau cyntaf wedi mynd heibio', sef y stormydd a'r ofnau y sonia David Charles amdanyn nhw. 'Ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen'(Dat. 21:4), dim ond diolch ein bod 'ninnau'n ddihangol o'u cyrraedd yn nofio mewn cariad a hedd'.

GWEDDI

O Dad, diolch iti am y gobaith sydd o'm blaen am y 'beraidd baradwys i fyw'. Bydd cymaint o waith gennyt ti yno ar fy nghyfer fel na fydd fawr amser i ystyried yr hyn a fu, ond ymgolli ynot ti ac yn ein mawl i'r Oen. O am gael plymio yno a 'nofio mewn cariad a hedd'. Amen.